**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd**
**Dydd Llun 20 Ionawr 2025, 10am-12pm**
**Tŷ Coetir, Heol Maes y Coed, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4HH**

| | |
|---|---|
| **<u>Yn bresennol</u>** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:**<br>Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)**<br>Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)**<br>Claire Beynon<br>Paul Orders<br>David Letellier<br>Gareth Evans<br>Marc Atwell<br>Emma Wools<br>Sheila Hendrickson-Brown<br>Eirian Evans<br>Zenny Saunders | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)<br>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro<br>Prif Weithredwr, CC<br>Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>Rheolwr Grŵp Caerdydd a Chaerffili, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC)<br>Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC)<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) De Cymru<br>Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd<br>Pennaeth Uned Gyflenwi Prawf (UGP) y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Hyfforddiant ac Addysg Ôl-orfodol, Llywodraeth Cymru (LlC) |
| **Ymddiheuriadau:**<br>Sarah McGill<br>Suzanne Rankin<br>Marie Davies<br>Danny Richards<br>Dan Jones | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC<br>Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro<br>Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio Dros Dro, BIP Caerdydd a'r Fro<br>Prif Uwch-arolygydd, HDC<br>Pennaeth Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais, SCHTh |
| **Hefyd yn bresennol:**<br>Y Cynghorydd Ash Lister<br>Gareth Newell<br>Sian Sanders<br>Abigail Streeter<br>Sarah Tipping<br>Jonny Currie<br>Stephen Taylor<br>Cath Doman | Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant, Trechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc, CC<br>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC<br>Pennaeth Diogelwch a Chydlyniad Cymunedol, CC<br>Swyddog Cynllunio a Gwella, CC<br>Pennaeth Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu, BIP Caerdydd a'r Fro<br>Ymgynghorydd Locwm mewn Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro<br>Cyn-Brif Swyddog Gweithredol y Ganolfan Arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| | Cyfarwyddwr, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso / Ymddiheuriadau**<br><br>Agorodd y Cynghorydd Thomas y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. | |
| 2. | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Nododd y Cynghorydd Thomas fod y camau gweithredu yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol ar 7 Hydref 2024 wedi'u cwblhau i raddau helaeth:<br><br>• O ran y cam gweithredu’n gysylltiedig â'r rhaglen Gofal Iawn, Person Iawn, tynnodd y Cynghorydd Thomas sylw at y ffaith bod ymgynghorwyr wedi'u penodi i gynnal adolygiad o'r rhaglen. Fel rhan o hyn, mae opsiynau yn cael eu hystyried i gynnwys tegwch o fewn cwmpas y gwerthusiad. Mae'r Uwch-arolygydd Lewis hefyd wedi cysylltu â Chyngor Trydydd Sector Caerdydd i gynnwys cydweithwyr fel partner ymchwil i helpu i hwyluso sesiynau ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>• Mewn perthynas â'r cam gweithredu’n ymwneud â'r Fframwaith Bwyd Da a Symud, cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas fod y fframwaith a'i gynllun gweithredu wedi'u cwblhau. Mae cyfarfod cyntaf y Grŵp Arweinyddiaeth a Galluogi Newid wedi'i drefnu i gael ei gynnal yfory (21 Ionawr). Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd y fframwaith a'r cynllun gweithredu yn cael eu dosbarthu i aelodau’r BGC, ynghyd â diweddariad ar ganlyniadau'r drafodaeth.<br><br>**Cytunodd y BGC i** gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2024. | |
| 3. | **Adroddiad Blynyddol 2024** Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd<br><br>Cyflwynodd Johnny Currie Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (CIC): *Blaenoriaethu'r Blynyddoedd Cynnar – Buddsoddi ar gyfer y Dyfodol.* Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bedwar maes allweddol lle gall gweithredu ar unwaith wella canlyniadau:<br><br>• Brechiadau yn ystod plentyndod<br>• Bwyd da a symud<br>• Iechyd y geg<br>• Cymorth bwydo ar y fron<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, yn arddangos astudiaethau achos arloesol a chydweithredol sy'n anelu at wella iechyd plant ifanc, ac yn amlinellu argymhellion ar gyfer pob un o'r pedwar maes. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Rhannodd Jonny hefyd ganfyddiadau allweddol o Asesiad Iechyd y Boblogaeth Blynyddoedd Cynnar cyfochrog ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Bydd yr asesiad hwn, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan, yn llywio trafodaethau mewn Gweithdy Blynyddoedd Cynnar i bartneriaid yng ngwanwyn 2025.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>• Nododd y Cynghorydd Thomas, er nad yw'r data ar anghydraddoldeb yn syndod, fod angen mwy o fewnwelediad i'r hyn sy'n gyrru'r gwahaniaethau hyn. Gofynnodd a oes tystiolaeth yn bodoli, yn lleol neu mewn mannau eraill, o strategaethau sy'n cau bylchau anghydraddoldeb yn effeithiol ac y gellid eu cymhwyso yng Nghaerdydd.<br><br>• Pwysleisiodd Claire Beynon mai tlodi sy'n gyrru'n bennaf faterion fel gordewdra, pydredd dannedd, a bwydo ar y fron cyfyngedig. Mynegodd Claire bryder am yr anghydraddoldeb cynyddol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg a'r ffaith nad yw'n lleihau'n lle. Tynnodd Claire sylw at y ffaith bod y gweithdy partneriaeth sydd ar ddod yn cynnig cyfle am drafodaeth bellach, gyda data, astudiaethau achos ac arferion gorau i'w rhannu.<br><br>• Awgrymodd y Cynghorydd Thomas y dylai'r BGC ddatblygu cynllun ymateb i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad CIC, gan gydnabod bod tlodi yn yrrwr sylweddol o anghydraddoldeb. Rhannodd y Cynghorydd Thomas brofiadau personol o rwystrau i gael mynediad at wasanaethau a gofynnodd a yw gwasanaethau'n cael eu blaenoriaethu'n effeithiol mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.<br><br>• Cytunodd Claire Beynon ar bwysigrwydd sicrhau gwasanaethau hygyrch, gan nodi y dylai'r BGC weithio i wneud y "dewis iach y dewis hawdd" trwy newidiadau gwasanaeth wedi'u targedu. Atgoffodd Claire aelodau'r BGC o'r cais ar y cyd - a gynhwyswyd yn adroddiad CIC - i leihau tlodi a phwysleisiodd yr angen i gadw'r gwaith hwn ar yr agenda.<br><br>• Nododd Cath Doman ddiffyg rhannu data a gwybodaeth strategol fel mater sylweddol. Cododd Cath yr angen am safbwynt ar y cyd ar olynydd safle rhannu gwybodaeth rhanbarthol y Bwrdd Iechyd, sy'n helpu'r BGC a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro i ddeall anghenion y boblogaeth yn well ac i ddyrannu adnoddau yn effeithiol.<br><br>• Canmolodd y Cynghorydd Lister y cydweithrediad rhwng Cyngor Caerdydd a BIP Caerdydd a'r Fro, yn enwedig o ran y 1,000 diwrnod cyntaf fel blaenoriaeth. Anogodd y Cynghorydd Lister uwch swyddogion i weithredu'r argymhellion yn adroddiad CIC, gan nodi rhwystrau fel iaith a mynediad digidol sy'n rhwystro cyfranogiad mewn gwasanaethau. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Pwysleisiodd Sheila Hendrickson-Brown bwysigrwydd strategaeth datblygu cymunedol i ddatrys sut mae tlodi yn effeithio ar wahanol grwpiau. Tynnodd Sheila sylw at yr angen i adeiladu cyfalaf cymdeithasol i gefnogi teuluoedd i fanteisio ar y mentrau sydd ar gael.<br><br>• Ailadroddodd Charles Janczewski bwysigrwydd cyfieithu'r argymhellion yn adroddiad CIC yn ganlyniadau gweithredadwy a galwodd am gydweithredu rhwng y BGC a'r BPRh i sicrhau ymatebion ystyrlon i flaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>• Awgrymodd y Cynghorydd Thomas y dylai'r BGC ganolbwyntio ar wella ymatebion unedig wrth bwyntiau cyswllt cyhoeddus allweddol, fel clystyrau meddygon teulu, deintyddiaeth ac ysgolion cynradd. Tynnodd y Cynghorydd Thomas sylw hefyd at yr angen i'r Cyngor osod disgwyliadau i ysgolion cynradd gymryd rhan mewn mentrau.<br><br>• Cynigiodd Paul Orders edrych ar ymdrechion yn y gorffennol, fel y nifer a oedd wedi cael brechiadau, i asesu eu heffeithiolrwydd a deall y camau gweithredu sydd eu hangen wrth symud ymlaen. Pwysleisiodd Paul bwysigrwydd nodi a chefnogi nifer fach o flaenoriaethau allweddol, yn hytrach na dibynnu ar newidiadau cynyddol.<br><br>• Cytunodd Claire Beynon i gwrdd â phartneriaid i lunio cynllun gweithredu BGC yn seiliedig ar argymhellion ac ymrwymodd i gyflwyno'r cynllun hwn i'w drafod mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol.<br><br>• Soniodd Zenny Saunders am y cyhoeddiad sydd ar ddod am newidiadau i drothwyon y Lwfans Cynhaliaeth Addysg gan Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Ionawr. Awgrymodd Zenny y gallai hyn helpu gyda lleihau tlodi ac addawodd rannu mwy o fanylion.<br><br>**Cytunodd y BGC** i nodi Adroddiad Blynyddol 2024 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd: Blaenoriaethu'r Blynyddoedd Cynnar – Buddsoddi ar gyfer y Dyfodol.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Claire Beynon i:<br>- Gwrdd â phartneriaid i lunio cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion yn Adroddiad Blynyddol 2024 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Bydd y cynllun drafft yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol i'w adolygu.<br><br>• Cath Doman a Gareth Newell i ddatblygu ffordd ymlaen ar olynydd safle rhannu gwybodaeth rhanbarthol y Bwrdd Iechyd.<br><br>• Zenny Saunders i rannu manylion newidiadau i drothwyon y Lwfans Cynhaliaeth Addysg gydag aelodau'r BGC. | **Claire Beynon**<br><br>**Cath Doman/ Gareth Newell**<br><br>**Zenny Saunders** |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 4. | **Total Place a Gweithio'n Lleol**<br><br>Total Place<br><br>Ymunodd Stephen Taylor, cyn-Brif Swyddog Gweithredol y Ganolfan Arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraeth Leol, a oedd yn un o'r arweinwyr y tu ôl i'r cysyniad 'Total Place' ar ddiwedd y 2000au, ag aelodau'r BGC.<br><br>Mae Total Place yn "ddull ardal gyfan" o ymdrin â gwasanaethau cyhoeddus sy'n edrych ar gyfanswm y gwariant cyhoeddus o fewn cymuned/mater penodol ac yn ailfeddwl sut y gellir dyrannu adnoddau yn wahanol, gyda ffocws penodol ar weithredu ataliol. Mae tair egwyddor graidd y dull Total Place fel a ganlyn:<br><br>1. Mae Lleoedd yn Wahanol: Mae pobl leol yn y sefyllfa orau i ddeall a gofalu am eu cymunedau.<br>2. Mae Atal yn Well nag Iachâd: Mae atal nid yn unig yn rhatach ond yn well i unigolion.<br>3. Meddwl mewn Cyfain, nid Rhannau: Mae angen i wasanaethau cyhoeddus drin unigolion yn gyfannol yn hytrach na mynd i'r afael â materion mewn seilos.<br><br>Nododd Stephen fod asiantaethau cyhoeddus yn aml yn blaenoriaethu eu hamcanion eu hunain, wedi'u dylanwadu gan strwythurau cyllido a gofynion monitro gan lywodraeth ganolog. Mae'r dull tameidiog hwn yn arwain at aneffeithlonrwydd a diffyg ymddiriedaeth.<br><br>Nododd Stephen fod Caerdydd eisoes yn symud ymlaen yn y gofod hwn, yn enwedig drwy fentrau fel y Prosiect Gweithio'n Lleol yn Nhreläi a Chaerau. Cynigiodd Stephen y gallai gwasanaethau oedolion a phlant, lle mae'r Cyngor, y GIG, a gofal cymdeithasol yn croestorri, elwa yn sylweddol o'r dull Total Place.<br><br>Awgrymodd Stephen gynnal sgyrsiau un-i-un gydag aelodau'r BGC i asesu effeithiolrwydd y BGC a nodi meysydd ar gyfer gwaith cydweithredol. Ni fyddai angen paratoi ar gyfer y trafodaethau hyn, er y gellid anfon holiadur ymlaen llaw. Ymrwymodd Stephen i gyflwyno cynigion yng nghyfarfod y BGC ym mis Ebrill.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>• Mynegodd Charles Janczewski gefnogaeth i'r dull, gan bwysleisio y byddai defnydd mwy effeithiol ac ehangach o bwrs y wlad yn fuddiol iawn.<br><br>• Tynnodd Emma Wools, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, sylw at brydlondeb y drafodaeth, yn enwedig wrth i'r Cynllun Heddlu a Throseddu gael ei ddatblygu. Pwysleisiodd Emma bwysigrwydd dulliau | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | seiliedig ar ardal leol wedi'u targedu ac alinio cyllidebau i ganolbwyntio buddsoddiadau yn yr ardaloedd cywir. Cododd Emma hefyd yr her o wneud achos economaidd cynaliadwy dros atal, gan nodi anawsterau yn y gorffennol wrth gyfiawnhau dulliau seiliedig ar leoedd integredig.<br><br>• Pwysleisiodd Cath Doman bwysigrwydd ystyried Caerdydd a Bro Morgannwg fel lle a gweithio ar y cyd i weithredu'r newidiadau angenrheidiol. Awgrymodd Cath iechyd a gofal cymdeithasol fel y man cychwyn mwyaf amlwg ond tynnodd sylw hefyd at rôl y BGC wrth fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd. Anogodd Cath gydweithredu ar draws y BGC a'r BPRh.<br><br>• Cefnogodd Sheila Hendrickson-Brown y syniad ac adleisiodd alwad Cath am archwilio ar y cyd o'r camau nesaf, gydag anghenion pobl ar y blaen.<br><br>• Dywedodd Paul Orders fod Total Place yn cyd-fynd yn dda â chyd-destun Caerdydd, gan nodi hanes partneriaeth cryf y ddinas, fframweithiau statudol yng Nghymru, a chynnydd mewn meysydd allweddol fel integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Awgrymodd Paul y gallai gwaith parhaus Caerdydd (e.e. yn Nhreláí a Chaerau) fod yn gysylltiedig ag ymdrechion ehangach i ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu bwrw ymlaen gan Lywodraeth y DU.<br><br>• Gofynnodd Gareth Evans a oes maint optimaidd ar gyfer gweithredu Total Place, gan nodi bod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cwmpasu 10 awdurdod lleol.<br><br>• Cydnabu Stephen Taylor y cwestiwn, gan nodi bod graddfeydd mwy yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ond byddai'n myfyrio ymhellach ar y maint optimaidd.<br><br>• Lleisiodd yr Uwch-arolygydd Marc Atwell gefnogaeth gref ond tynnodd sylw at heriau ym Mae Caerdydd, yn enwedig y diffyg ymgysylltu gan y gymuned â'r Heddlu oherwydd materion hyder ac ymddiriedaeth. Pwysleisiodd yr Uwch-arolygydd Atwell yr angen am ddulliau mwy cymhleth i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.<br><br>• Nododd Sheila Hendrickson-Brown y gallai Cyngor Trydydd Sector Caerdydd gynnig cymorth, trwy rannu ei brofiadau o weithio'n agos gyda chymunedau a datblygu strategaethau i ddod â phartneriaid ac unigolion y mae'n anodd ymgysylltu â nhw at ei gilydd.<br><br>• Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi'i galonogi at lefel y gefnogaeth i'r cysyniad a chadarnhaodd y byddai Stephen yn dychwelyd i'r BGC ym mis Ebrill gyda chynigion pellach. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Awgrymodd Eirian Evans ddod â chyflwyniad i'r BGC ar brosiect Y Rhodfa Fawr yn Nhreláí, sy'n enghraifft o waith cymunedol cydweithredol ac a allai fod yn gam nesaf wrth hyrwyddo egwyddorion Total Place.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Stephen Taylor i:<br>- Gynnal sgyrsiau unigol gydag aelodau'r BGC i adolygu effeithiolrwydd y BGC a nodi meysydd posibl ar gyfer gweithredu ar y cyd.<br>- Cydgrynhoi'r canfyddiadau a dychwelyd i gyfarfod y BGC ym mis Ebrill gydag argymhellion ar sut i symud ymlaen y dull Total Place.<br><br>• Ystyried arddangos prosiect Y Rhodfa Fawr yn Nhreláí fel enghraifft o gydweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn cyfarfod y BGC yn y dyfodol.<br><br><u>Gweithio'n Lleol</u><br><br>Rhoddodd Sian Sanders y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r BGC am y prosiect gweithio'n lleol yn Nhreláí a Chaerau.<br><br>Nododd Sian fod canlyniadau i blant a phobl ifanc ledled y ddinas yn bryderus, gyda'r holl wasanaethau cyhoeddus a holl wasanaethau'r Cyngor sy'n cefnogi Plant a Phobl Ifanc yn profi cynnydd mewn niferoedd a chymhlethdod y galw. Er bod hyn yn wir ar draws y ddinas, mae'r pwysau hyn wedi'u crynhoi mewn ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, gyda nifer fach o gymunedau yn cael eu heffeithio'n anghymesur.<br><br>Mewn ymateb, mae angen adeiladu dealltwriaeth glir o anghenion pobl ac o le, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn, gan wneud y system yn well.<br><br>I lywio'r prosiect, ar 29 Tachwedd 2024, cynhaliwyd Digwyddiad Gweithio'n Lleol gyda rhanddeiliaid gwasanaethau cyhoeddus lleol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd. Yn ystod y sesiwn, gofynnwyd y cwestiynau canlynol:<br><br>• Pa mor effeithiol yw'r system gymorth bresennol?<br>• Sut gallwn ni wneud y defnydd gorau o'r hyn sydd gennym gyda'n gilydd mewn cyfnod o adnoddau prin?<br>• Mae gennym lawer o ddata, sut gallwn ni ei ddefnyddio'n fwy effeithiol fel bod ein gwasanaethau yn fwy ymatebol i'r hyn sydd ei angen ar gymunedau a'n bod yn gallu gweithredu'n ataliol?<br><br>Mae'r camau nesaf ar gyfer y prosiect yn cynnwys:<br><br>• Datblygu adroddiad cryno ac argymhellion i'w trafod<br>• Cwmpasu ardaloedd prosiect, neilltuo arweinwyr prosiect a datblygu cynlluniau prosiect | <br><br><br><br><br>**Stephen Taylor**<br><br><br><br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth y BGC** |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Nodi buddugoliaethau cyflym, yn ogystal â chamau gweithredu tymor canolig i hwy i symud ymlaen. | |
| 5. | **Diweddariad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro**<br><br>Rhoddodd Cath Doman y wybodaeth ddiweddaraf am waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.<br><br>Amlinellodd cyflwyniad Cath gynnydd yn erbyn themâu cyfnod bywyd y BPRh: *Dechrau'n Dda, Byw'n Dda, a Heneiddio'n Dda*, ynghyd â diweddariadau ar alluogwyr strategol.<br><br>Tynnodd Cath sylw at newid ffocws y BPRh o ganolbwyntio ar wasanaeth a sefydliad i ganolbwyntio ar bobl a lle. Mae hyn yn golygu symud tuag at gynllunio seiliedig ar le trwy alinio gwasanaeth a seilwaith gyda dealltwriaeth ddofn o anghenion lleol. Y nod yw mynd i'r afael ag amrywiadau ac anghydraddoldebau trwy newidiadau diriaethol, wedi'u gyrru'n lleol.<br><br>Fel enghraifft, cyflwynodd Cath uchelgais y BPRh o System Gofal Cymunedol Integredig. Pwysleisiodd hefyd yr angen i ailystyried strwythurau llywodraethu, gan dynnu sylw at gyfleoedd a gollwyd o ystyried gweithrediad y BGC a'r BPRh fel endidau ar wahân.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>• Nododd y Cynghorydd Thomas fod y BGC yn cynrychioli'r sector cyhoeddus cyfan ac yn cynnwys partneriaid fel Tân a'r Heddlu, nad oes angen iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau manwl am ofal cymdeithasol o bosibl.<br><br>• Pwysleisiodd Cath Doman bwysigrwydd diffinio amcanion clir ar gyfer cydweithio rhwng y BGC a'r BPRh. Cydnabu Cath ymdrechion yn y gorffennol i fynd i'r afael â dyblygu llywodraethu ond nododd fod cyfleoedd wedi'u colli o hyd ar gyfer gweithio'n agosach. Cynigiodd Cath weithio ar y cyd ar genadaethau neu flaenoriaethau penodol, fel Total Place neu gynllunio seiliedig ar le, tra'n osgoi un bwrdd trosfwaol.<br><br>• Pwysleisiodd y Cynghorydd Thomas yr angen am oruchwyliaeth glir rhwng y BPRh a'r BGC. Awgrymodd y Cynghorydd Thomas y gellid mynd i'r afael â hyn trwy adrodd yn rheolaidd neu drwy eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y BGC.<br><br>• Cytunodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools a Charles Janczewski, fel Cadeirydd y BPRh, â sylwadau'r Cynghorydd Thomas, gan bwysleisio'r angen am rannu gwybodaeth yn well rhwng y BPRh a'r BGC. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Daeth y Cynghorydd Thomas i'r casgliad y gallai gwaith Total Place gynnig atebion. Awgrymodd y Cynghorydd Thomas symud ymlaen â'r gwaith hwn i ddechrau, cyn ailedrych ar anghenion llywodraethu a rhannu gwybodaeth yn ôl yr angen. | |
| **6.** | **Diogelwch Cymunedol a Diogelu**<br><br><u>Diogelu</u><br><br>Rhoddodd Sian Sanders y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r BGC am y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a gyfarfu ddiwethaf ar 14 Ionawr 2025. Roedd y canlyniadau allweddol yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad ciplun Cam-drin yn Rhywiol ar Blant (CRhB) a chytundeb pedwar cynnyrch allweddol: Safonau Ymarfer, Calendr Archwilio, yr egwyddor 'plant a phobl ifanc heb eu hebrwng i apwyntiadau gofal iechyd', a diweddariadau Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (FfAA). Cadarnhaodd y Bwrdd hefyd ddau Adolygiad Ymarfer Amlasiantaethol Hysbysodd Sian y BGC y bydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) cyntaf yn cael ei gyhoeddi ar 1 Chwefror 2025.<br><br>Tynnodd Sian sylw hefyd at ddiwrnod datblygu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2025, a oedd yn canolbwyntio ar rannu dysgu o adolygiadau diogelu, asesu cynnydd a thrafod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br><u>Diogelwch Cymunedol</u><br><br>Rhoddodd Sian y wybodaeth ddiweddaraf am y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, gan nodi bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 29 Ionawr 2025. Bydd yr agenda'n cwmpasu sawl mater allweddol, gan gynnwys newidiadau i staffio o ran Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH), Parthau Mynediad Diogel, Rhyddhau Carcharorion yn Gynnar, a diweddariadau ariannol. Sicrhaodd Sian yr Aelodau y bydd papurau a chanlyniadau'r cyfarfod hwn yn cael eu rhannu ag aelodau'r BGC.<br><br><u>Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau</u><br><br>Rhoddodd Sian y wybodaeth ddiweddaraf i'r BGC hefyd am Gynllun Cymunedol Trelái a Chaerau, gan gadarnhau bod yr holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn i'w cyflawni.<br><br>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:<br><br>• Canmolodd Paul Orders y dull diogelu rhanbarthol dan arweiniad Sian a'i thîm, gan nodi gwelliannau sylweddol o gymharu â threfniadau blaenorol. Awgrymodd Paul y dylai'r BGC adolygu'r Gofrestr Risgiau Diogelu ar y cyd i sicrhau goruchwyliaeth lywodraethu. Pwysleisiodd Paul hefyd werth rhoi diweddariad i'r BGC ar gynnydd mewn cyfiawnder | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | ieuenctid mewn cyfarfod yn y dyfodol, o ystyried ei berthnasedd i drefniadau adrodd diogelwch cymunedol ehangach.<br><br>• Cytunodd y Cynghorydd Thomas, gan dynnu sylw at bwysigrwydd alinio trafodaethau ar draws y BGC a Byrddau eraill i sicrhau gwelededd a chydlyniant wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau a rennir.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Amserlennu diweddariadau ar y pynciau canlynol ar gyfer cyfarfod y BGC yn y dyfodol:<br>- Cyfiawnder Ieuenctid<br>- Cofrestr Risgiau Diogelu<br><br>• Sian Sanders i rannu canlyniadau a phapurau perthnasol o'r cyfarfod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol sydd ar ddod gydag aelodau'r BGC. | **Ysgrifenyddiaeth y BGC**<br><br><br><br>**Sian Sanders** |
| **7**. | **Ymrwymiadau Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus 2025-26**<br><br>Rhoddodd Sheila Hendrickson-Brown, Cadeirydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus, y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r BGC am waith a mentrau parhaus y Rhwydwaith.<br><br>Sefydlwyd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus mewn ymateb i'r argymhelliad canlynol gan Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd ym mis Mawrth 2022:<br><br>*"Datblygu rhwydwaith ledled y ddinas ar gyfer cyflogwyr i annog arfer da a chydweithio ar gamau gweithredu cyflogaeth i wella cynrychiolaeth a dilyniant lleiafrifoedd ethnig yn y farchnad lafur leol."*<br><br>Ers sefydlu'r Rhwydwaith, mae Cylch Gorchwyl wedi'i gytuno a blaenoriaeth gychwynnol y Rhwydwaith yw Cydraddoldeb Hiliol, gyda ffocws ar fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, yn ogystal â'r camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br><br>Wrth edrych ymlaen, er mwyn datblygu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws gwasanaethau cyhoeddus, mae'r Rhwydwaith wedi cynnal adolygiad o arfer gorau ac wedi nodi meysydd i'w gwella. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu ymrwymiadau gweithredadwy i droi 'arfer gorau' yn 'arfer cyffredin' ar draws holl sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar bum maes thematig allweddol:<br><br>• Arweinyddiaeth a Diwylliant<br>• Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br>• Amrywiaeth y Gweithlu | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Darparu Gwasanaethau Cynhwysol a Gwybodus<br>• Gwerth Cymdeithasol<br><br>Mae'r Rhwydwaith wedi cytuno, o ran amserlenni cyflawni, y dylai sefydliadau ymrwymo i gyflawni cymaint o'r ymrwymiadau â phosibl erbyn mis Mawrth 2026.<br><br>Bydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am fonitro cynnydd, tra bydd y BGC yn parhau i oruchwylio'r gwaith hwn drwy adroddiad blynyddol a fydd yn olrhain ac yn tynnu sylw at gynnydd.<br><br>Cadarnhaodd aelodau'r BGC eu cefnogaeth i Ymrwymiadau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2025-26, yn ogystal â'r trefniadau adrodd yn y dyfodol.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Cymeradwyo Ymrwymiadau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2025-26<br>• Ymrwymo i gyflawni cymaint o'r ymrwymiadau â phosibl erbyn diwedd 2026.<br>• Derbyn adroddiad cynnydd pellach fel rhan o'r trefniadau monitro a goruchwylio, gan ymrwymo i gymryd camau gwella unigol a chyfunol yn ôl yr angen.<br>• Parhau i sicrhau cynrychiolaeth briodol gan sefydliadau priodol mewn cyfarfodydd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol, gan gynnwys Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Datblygu Sefydliadol. | |
| 8. | **UNRHYW FATER ARALL**<br><br><u>Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, 13 Tachwedd 2024: Llythyr ac Ymateb</u><br><br>Ar 13 Tachwedd 2024, ystyriodd Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad Cyngor Caerdydd waith BGC Caerdydd dros y 12 mis diwethaf, yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn ail Gynllun Lles Lleol y Bwrdd ar gyfer 2023-2028.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod, anfonwyd llythyr at yr Arweinydd fel Cadeirydd y BGC. Yn gryno, gwnaeth y Pwyllgor bedwar argymhelliad:<br><br>1. Bod y Bwrdd yn sicrhau bod graddfa briodol o ymateb brys ar waith i ddelio â digwyddiadau amgylcheddol trychinebus.<br>2. Bod y Bwrdd yn cymhwyso'r dulliau cymysg sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ymgynghoriad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) i ymgynghoriadau BGC yn y dyfodol.<br>3. Bod y Cyngor a'r Heddlu yn blaenoriaethu gwaith i wella canfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch cymunedol. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | 4. Bod y Bwrdd yn ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'i bellter democrataidd oddi wrth y cyhoedd.<br><br>Cylchredwyd ymateb drafft i lythyr y Pwyllgor i aelodau'r BGC, gyda chynnig bod argymhellion 1-3 yn cael eu derbyn, ac nad yw argymhelliad 4 yn cael ei dderbyn.<br><br>Cytunodd aelodau'r BGC i gymeradwyo'r ymateb i lythyr y Pwyllgor, ar yr amod bod yr ymateb i Argymhelliad 4 yn cael ei gryfhau trwy gynnwys cyfeiriadau at ddull y BGC o ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:**<br><br>• Nodi'r llythyr gan Bwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad Cyngor Caerdydd, yn dilyn iddo ystyried gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd ar 13 Tachwedd 2024.<br><br>• Cymeradwyo'r ymateb i lythyr y Pwyllgor, ar yr amod bod yr ymateb i Argymhelliad 4 yn cael ei gryfhau trwy gynnwys cyfeiriadau at ddull y BGC o ymgysylltu â'r gymuned.<br><br><u>Diweddariad ar yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd</u><br><br>Ym mis Hydref 2024, roedd Cyngor Caerdydd, ar ran aelodau BGC Caerdydd, yn llwyddiannus wrth wneud cais am gyllid drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) y DU i gynnal Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd (ARNH) ar gyfer Caerdydd.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2024, penodwyd Waterman Group i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae Waterman yn bwriadu fframio'r asesiad o amgylch y 61 o gyfleoedd a risgiau ARNH3 i Gymru, gan ddefnyddio rhagamcanion newid hinsawdd lleol ar gyfer Caerdydd.<br><br>Ar hyn o bryd mae Waterman yn gweithio i ddadansoddi'r wybodaeth a'r data a roddwyd gan aelodau'r BGC. Er mwyn llywio'r asesiad ymhellach, ddydd Gwener diwethaf (17 Ionawr), cynhaliodd Waterman weithdy gyda'r prif gysylltiadau a nodwyd gan aelodau'r BGC. Yn ogystal, cynhelir cyfweliadau unigol gyda phrif gysylltiadau'r BGC.<br><br>Ar ôl cwblhau'r asesiad, bydd gweithdai, wedi'u hwyluso gan Waterman, yn cael eu cynnal gydag aelodau'r BGC i archwilio'r canfyddiadau a'r cyd-ddibyniaethau risg.<br><br>**Cytunodd y BGC** i nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddechrau'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd ar gyfer Caerdydd. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | <u>Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Blant (2023/24)</u><br><br>Ar ôl rhaglen pum mlynedd o waith, cafodd Caerdydd ei henwi'n swyddogol fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF gyntaf y DU ym mis Tachwedd 2023.<br><br>Ar ddiwedd 2023, cyhoeddwyd Cynllun Cynaliadwyedd Caerdydd sy'n Dda i Blant 3 blynedd i barhau â'r gwaith i wneud Caerdydd yn lle hyd yn oed yn well i blant a phobl Ifanc.<br><br>Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:<br><br>1. Addysg Hawliau Plant<br>2. Cyfranogiad<br>3. Cyfartal ac yn Cael eu Cynnwys<br>4. Lle<br><br>Mae cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Cynaliadwyedd yn ystod 2023/24 i'w weld yn Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Blant. Er bod cynnydd da wedi'i wneud, wrth edrych ymlaen, mae cynaliadwyedd ymrwymiad Caerdydd i hawliau plant yn allweddol i sicrhau llwyddiant a chynnydd parhaus y blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Cynaliadwyedd Caerdydd sy'n Dda i Blant 2023-2026. Felly, mae trefniadau cyflawni yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i brif ffrydio cydrannau'r Cynllun.<br><br>Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Blant (2023/24), bydd statws Da i Blant yn cael ei gadw am ddwy flynedd arall, ac ar ôl hynny bydd asesiad arall yn cael ei gynnal.<br><br>**Cytunodd y BGC** i nodi Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Blant (2023/24).<br><br>**<u>Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn 2024-28</u>**<br><br>Ymunodd Caerdydd â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn ym mis Mawrth 2022. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ennill aelodaeth. Fel rhan o'r broses ymgeisio, datblygwyd cynllun gweithredu ledled y ddinas: *'Caerdydd, gweithio tuag at ddod yn Ddinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn'*.<br><br>Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn ym mis Rhagfyr 2023, yn amlinellu cynnydd Caerdydd ers ymuno â'r Rhwydwaith Byd-eang. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad cynnydd, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod Caerdydd yn "aelod rhagorol" a gofynnwyd i swyddogion gyflwyno yng nghyfarfodydd rhyngwladol y Rhwydwaith.<br><br>Er mwyn parhau i gyflawni'r weledigaeth o Gaerdydd yn dod yn 'lle gwych i dyfu'n hŷn', cytunwyd bod angen cynllun gweithredu newydd. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Felly, mae 'Cynllun Gweithredu Caerdydd, Gweithio Tuag at Fod yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn' wedi'i adolygu.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu diwygiedig yn nodi sut y bydd Caerdydd yn gweithio tuag at amgylcheddau sy'n dda i bobl hŷn sy'n cefnogi pobl hŷn i fod yn actif, i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd y ddinas, ac i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd â phosibl. Mae hyn yn cynnwys ystod o gymorth, a roddir ar yr adeg iawn gan gynnwys mwy o gymorth arbenigol i'r rhai sydd ei angen.<br><br>**Cytunodd y BGC** i nodi Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn diwygiedig ar gyfer 2024-28: 'Caerdydd, Gweithio Tuag at Ddod yn Ddinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn'.<br><br>Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol (ar ôl mis Ebrill 2025)<br><br>**Cytunodd y BGC** i'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol:<br>• 8 Gorffennaf 2025 (2pm-4pm)<br>• 14 Hydref 2025 (2pm-4pm)<br>• 20 Ionawr 2026 (2pm-4pm)<br>• 14 Ebrill 2026 (2pm-4pm) | |